Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**
—
Welsh Parliament
**Senedd Commission**

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

26 Ionawr 2024

Annwyl David Rees AS,

**Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Ymateb i argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Biliau Diwygio**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Ionawr 2024, yn amgáu copi o'ch adroddiad Cyfnod 1 ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), ac yn gwahodd Comisiwn y Senedd i ymateb i argymhellion a wnaed iddo erbyn dydd Gwener 26 Ionawr 2024.

Atodaf i'r llythyr hwn ymateb gan Gomisiwn y Senedd.

Yn gywir,

Elin Jones

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS,

Y Llywydd a Chadeirydd Comisiwn y Senedd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.cymru
0300 200 6227

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.wales
0300 200 6227

# Ymateb gan Gomisiwn y Senedd i argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Biliau Diwygio

## Mae'r papur hwn yn rhoi ymatebion i argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Biliau Diwygio, yn *Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Adroddiad Cyfnod 1*, i Gomisiwn y Senedd.

### Argymhellion i Gomisiwn y Senedd

**Argymhelliad 2:** Os yw'r Bil yn pasio Cyfnod 1, dylai Comisiwn y Senedd ysgrifennu atom cyn trafodion Cyfnod 2 i amlinellu beth fyddai'r gwahaniaethau yn yr amcangyfrifon ariannol pe bai'r amcangyfrifon wedi'u seilio ar Benderfyniad 2023-24 yn hytrach na Phenderfyniad 2022-23. Yna, dylai'r Aelod sy'n gyfrifol ymgorffori'r amcangyfrifon hyn yn y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig a osodir ar ôl Cyfnod 2.

**Ymateb Comisiwn y Senedd:** Derbyn

1. Bydd y wybodaeth y gofynnir amdani yn cael ei darparu cyn trafodion Cyfnod 2.
2. Mater i'r Aelod sy'n gyfrifol yw p'un a yw wedi'i gynnwys mewn Memorandwm Esboniadol ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig ai peidio.

**Argymhelliad 3:** Yn ei ymateb i'n hadroddiad, dylai Comisiwn y Senedd ddarparu gwybodaeth am unrhyw ryngweithio rhwng y cynigion ym Mil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) (os caiff ei basio) a phrosiect swyddfeydd Bae Caerdydd 2032. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth ynghylch sut y byddai unrhyw gynnydd yn nifer yr Aelodau'n effeithio ar gostau posibl prosiect 2032. Os nad yw'n bosibl darparu amcangyfrifon o'r costau ar hyn o bryd, dylai Comisiwn y Senedd nodi yn ei ymateb pryd y gallai'r

wybodaeth fod ar gael. Dylai Comisiwn y Senedd hefyd ymrwymo i roi diweddariadau i'r Senedd, ac i'r cyhoedd, ar y materion hyn.

**Ymateb Comisiwn y Senedd:** Derbyn

3. Nod Prosiect Bae Caerdydd 2032 yw sicrhau gofod o ansawdd uchel sy'n gweddu i senedd genedlaethol sy'n diwallu anghenion hirdymor y Senedd a'i Haelodau, Comisiwn y Senedd a phobl Cymru.

4. Mae'r prosiect yn dal yn ei gamau cynnar iawn, gyda'r Comisiwn wedi cymeradwyo'r Achos Amlinellol Strategol ym mis Rhagfyr 2023 – y cyntaf o'r tri achos busnes sy'n ofynnol gan y canllawiau a nodir yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM / Llywodraeth Cymru.

5. Mae'r prosiect hwn yn cael ei arwain yn llwyr gan ddiwedd prydles bresennol Tŷ Hywel yn 2032; nid yw cynnydd Bil Diwygio'r Senedd drwy'r Senedd yn ffactor o bwys sy'n effeithio ar y gwaith hwn ar hyn o bryd.

6. Bydd nifer yr Aelodau o'r Senedd, a'r ffyrdd y maent yn eu ffafrio o weithio, wrth gwrs yn dylanwadu ar yr ystyriaeth o anghenion o ran gofod, ynghyd ag ystod eang o ffactorau a newidynnau allweddol eraill, dros y 50+ mlynedd o'r gorwel cynllunio ar gyfer y prosiect, ond dim ond unwaith y bydd y gwaith yn cyrraedd y cam dylunio manwl.

7. Felly, nid yw'n bosibl eto rhoi amcangyfrifon ystyrlon o gostau i'r Pwyllgor a sut y gallent newid o ganlyniad i wahanol ofynion o ran gofod a defnydd. Dim ond yn dilyn gwaith dylunio manwl sy'n seiliedig ar ystyried yr hyn a all fod yn ystod o opsiynau dichonadwy ar gyfer anghenion swyddfeydd y gellir cynhyrchu'r wybodaeth hon. Mae'r gweithgarwch hwn yn gofyn am gychwyn ymarfer caffael cyhoeddus cymhleth a disgwylir iddo gymryd rhwng 24 a 36 mis.

8. Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd a'r cyhoedd am gynnydd Prosiect Bae Caerdydd 2032 (gan nodi bod achosion o sensitifrwydd masnachol o bryd i'w gilydd, ac y bydd hynny hefyd yn wir yn y dyfodol) a bydd yn datblygu cynllun ymgysylltu cynhwysfawr fel un o brif amcanion y prosiect. Yn y cyfamser, bydd yr Uwch-berchennog Cyfrifol a Noddwr y Prosiect yn rhoi sesiwn friffio dechnegol i Bwyllgor Cyllid y Senedd ym mis Mawrth er mwyn sicrhau bod y Senedd yn parhau i fod yn hysbys wrth reoli achosion o sensitifrwydd masnachol a allai effeithio ar werth am arian.

9. Efallai yr hoffai'r Pwyllgor nodi hefyd y bydd y prosiect yn cael ei gynnal a'r opsiynau'n cael eu gwerthuso mewn modd sy'n ystyried ac yn cymharu eu costau 'oes gyfan' er mwyn sicrhau y ceir y gwerth gorau am arian cyhoeddus.

**Argymhelliad 12:** Dylai Comisiwn y Senedd, fel rhan o'i Raglen i Ddiwygio'r Senedd, ystyried a oes angen unrhyw newidiadau i'r prosesau ar gyfer ymgymryd â phenodiadau cyhoeddus a arweinir gan y Senedd (neu a arweinir gan Gomisiwn y Senedd) i gyfrif am gylchoedd etholiadol amlach.

**Ymateb Comisiwn y Senedd:** Derbyn

10. Bydd Rhaglen Diwygio'r Senedd Comisiwn y Senedd yn mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn, mewn ymgynghoriad â phwyllgorau perthnasol y Senedd a'r swyddfeydd penodedig y gallai cylchoedd etholiadol amlach effeithio arnynt o bosibl.